**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r
Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru

10 Chwefror 2023

Fferm Gilestone

Annwyl Andrew,

Yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2023, gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus drafod canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn ei adolygiad o'r digwyddiadau a arweiniodd at brynu Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn nodi nad oedd y broses o wneud penderfyniadau ynghylch Fferm Gilestone yn ffocws i'r adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi crybwyll hyn yn ei waith craffu blaenorol ac mae'r maes hwn yn un sy'n peri pryder i'r Pwyllgor o hyd.

I'n cynorthwyo gyda'n trafodaethau parhaus, yn enwedig o ran ein dull o graffu yn y dyfodol, a fyddech cystal â chadarnhau ble mae Llywodraeth Cymru arni gyda'i diwydrwydd dyladwy parhaus ynghylch y cynlluniau a gyflwynwyd gan gwmnïau sy'n gysylltiedig â Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'r amserlen a ragwelir ar gyfer unrhyw benderfyniad ynghylch sut y bydd y fferm yn cael ei defnyddio yn y dyfodol. Nodwn fod cyfeiriad yn y wasg at y gwaith diwydrwydd dyladwy yn dod i ben yn yr wythnosau nesaf, ond byddem yn croesawu manylion penodol.

A fyddech cystal â darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl?

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.